Crynodebau Prosiectau Grant Cynulleidfaoedd Newydd 2023/24

Project Summaries New Audiences Grant 2023/24

Afterlight Comics

Mae Afterlight Comics yn cydweithio â chreadigwyr Cymreig lleol i drawsnewid chwedlau o lên gwerin Cymru yn nofel graffig. Drwy gydweithio ag artistiaid ac awduron o Gymru, y nod yw rhoi bywyd newydd i'r straeon traddodiadol hyn, gan eu haddasu i fformat sy'n ddeniadol i'r llygaid. Nod y fenter hon yw rhoi sylw i ddiwylliant a threftadaeth Cymru, gan wneud llên gwerin oesol yn hygyrch ac yn ddiddorol i ddarllenwyr modern.

Afterlight Comics is collaborating with local Welsh creatives to transform tales from Welsh folklore into a graphic novel. By teaming up with artists and writers from Wales, the goal is to breathe new life into these traditional stories, adapting them into a visually captivating format. This initiative aims to spotlight Welsh culture and heritage, making age-old folklore accessible and intriguing for modern readers.

Biosphere Guardians 2050

Mae Biosphere Guardians 2050 yn brosiect cyfnewid ieuenctid Ewropeaidd sy'n creu llyfr gêm chwarae rôl pen bwrdd (*tabletop role-playing game,* neu TTRPG) ar gyfer pobl ifanc amrywiol 16–25 oed, gan ragweld dyfodol hinsawdd cadarnhaol. Gyda chymorth y Gronfa Cynulleidfaoedd Newydd, ein nod yw grymuso crewyr ifanc, mireinio'r llyfr ar gyfer ei gyhoeddi, ceisio cyngor gan arbenigwyr cyhoeddi Cymraeg, a'u cyflwyno i fyd diwylliant TTRPG ieuenctid. Bydd y fenter hon nid yn unig yn cyfoethogi byd gemau pen bwrdd ond hefyd yn meithrin cydweithio rhwng talent ifanc a chyhoeddwyr o Gymru, gan gael effaith barhaol ar y diwydiant.

Biosphere Guardians 2050 is a European youth exchange project creating a tabletop role-playing game (TTRPG) book for diverse young people aged 16–25, envisioning a positive climate future. With support from the New Audiences Fund, we aim to empower young creators, refine the book for publication, seek advice from Welsh publishing experts, and introduce *them* to the world of youth TTRPG culture. This initiative will not only enrich the world of tabletop gaming but also foster collaboration between young talent and Welsh publishers, creating a lasting impact on the industry.

Buzz

Mae Buzz Magazine yn gweithio gyda Buzz Culture i gynnig sgiliau a hyfforddiant gwerthfawr i bobl ifanc sydd heb yr wybodaeth, y cysylltiadau a'r profiadau i fynd i'r diwydiannau cyhoeddi a chreadigol a diwylliannol. Mae hon yn rhaglen i greu cynnwys digidol sydd hefyd yn

ymarferol ac yn cydweithio gyda Buzz Culture a phartneriaid o'r diwydiant ar friffiau gwaith sy'n fyw. Bydd cyfleoedd i ysgrifennu, adolygu, ymchwilio, dylunio, cyfweld a datblygu sgiliau trawsgyfeiriol gyda ffocws craff ar arloesi ac entrepreneuriaeth. Byddant yn cael y cyfle i ddysgu oddi wrth arweinwyr diwydiant o fewn y diwydiannau creadigol trwy weithdai a phanelau trafod a gyda chymuned gref o ymarfer ac arweiniad a chefnogaeth; bydd hyn yn rhoi profiadau bywyd go iawn iddynt a llwyfan i rannu eu gwaith a chreu cynnwys sy'n berthnasol iddyn nhw a'u cyfoedion.

Buzz Magazine are working with Buzz Culture to offer young people lacking the knowledge, contacts, and experiences valuable skills and training to enter the publishing and creative and cultural industries. This is a digital and hands on content creation program working with Buzz Culture and industry partners on live work briefs, with opportunities to write, review, investigate, design, interview and develop transversal skills with a sharp focus on innovation and entrepreneurship. They will have the opportunity to learn from industry leaders within the creative industries through workshops and panel debates and with a strong community of practice and guidance and support; this will give them real life experiences and a platform to share their work and create content that is relevant to them and their peers.

Clwb Ffermwyr Ifanc Cymru

Bydd hyd at 15 o aelodau Clwb Ffermwyr Ifanc Cymru yn cydweithio â mentoriaid i ddatblygu eu sgiliau ysgrifenedig a fydd, yn y pen draw, yn arwain at gyhoeddi eu gwaith. Gyda chymorth a chefnogaeth dau fentor profiadol, bydd amrywiaeth o ffurfiau ysgrifenedig (yn dibynnu ar yr unigolyn) yn cael eu creu a'u datblygu gan bobl ifanc rhwng 10 a 28 mlwydd oed; boed yn adroddiadau digri, yn gerddi neu'n straeon byrion, fel bod lleisiau ieuenctid cefn gwlad Cymru i'w clywed mewn cyfrol wedi ei chyhoeddi.

Up to 15 members of Wales Young Farmers Clubs will work with mentors to develop their writing skills, which will lead to publication. With the help and support of two experienced mentors, a variety of written forms (depending on the individual) will be created and developed by young people between 10 and 28 years of age; be it humorous reports, poems or short stories, so that the voice of the rural youth of Wales is heard in a published volume.

Cwlwm

Bydd Cwlwm yn llwyfannu straeon o gymunedau amrywiol Cymru drwy ddull cyd-greadigol. Bydd awduron, golygyddion a phobl greadigol sefydledig yn gweithio ar y cyd â grwpiau cymunedol ac awduron newydd o gefndiroedd heb gynrychiolaeth ddigonol i gynhyrchu gwaith newydd i'w gyhoeddi mewn amrywiaeth o fformatau.

Cwlwm will platform stories from Wales' diverse communities through a co-creational approach. Established writers, editors and creatives will work in collaboration with community groups and new writers from underrepresented backgrounds to produce new work for publication in a range of formats.

Firefly

Bydd prosiectau Cronfa Cynulleidfaoedd Newydd 2 Firefly yn:

- Adeiladu ar lwyddiant ein gweithdai Rownd Un 'Ignite' ar gyfer darpar awduron plant Cymraeg o gefndiroedd heb gynrychiolaeth ddigonol, gyda thri gweithdy newydd wedi'u teilwra yn ôl yr adborth a dderbyniwyd.
- Hwyluso un neu fwy o ddigwyddiadau rhwydweithio wyneb yn wyneb ar gyfer aelodau Ignite.
- Cynnig mentora gan yr awduron gorau i dri aelod dethol Ignite.
- Ariannu blaendaliadau ar gyfer dau lyfr neu fwy gan awduron a darlunwyr heb gynrychiolaeth ddigonol.
- Ymestyn oriau ein Swyddog Cynulleidfaoedd Newydd, cynorthwyydd golygyddol Firefly.
- Gweithio ymhellach gydag ysgolion dethol ar brosiectau ysgrifennu i feithrin cariad at ddarllen ac ysgrifennu.
- Cyflwyno awduron o gefndiroedd heb gynrychiolaeth ddigonol i ysgolion.

Firefly's New Audience Fund 2 projects will:

- Build on the success of our Round One 'Ignite' workshops for aspiring Welsh children's authors from underrepresented backgrounds, with three new workshops tailored to feedback.
- Facilitate one or more in-person networking events for Ignite members.
- Offer mentoring from top authors to three selected Ignite members.
- Fund advances for two or more books from underrepresented authors and illustrators.
- Extend the hours of our New Audiences Officer, the Firefly editorial assistant
- Work further with selected schools on writing projects to foster a love of reading and writing.
- Bring authors from underrepresented backgrounds into schools.

Gathering: Women of Colour on Nature

Mae *Gathering: Women of Colour on Nature* yn gasgliad o draethodau personol a olygwyd gan Durre Shahwar a Nasia Sarwar-Skuse ac sydd i'w gyhoeddi gan 404 Ink yn gynnar yn 2024. Mae'r llyfr yn rhoi'r cyfle i fenywod o liw sy'n ysgrifennu yn *genre* y byd natur, lle maent yn cael eu tangynrychioli, i ddathlu byd natur trwy bynciau croestoriadol fel crefydd, profiad cwiar, gwladychiaeth, perthyn, galar, salwch, creadigrwydd, argyfwng hinsawdd, hil, a mwy. Mae'n cynnwys rhestr gref o awduron Cymreig ynghyd ag awduron o bob rhan o'r Deyrnas Unedig.

Gathering: Women of Colour on Nature is an anthology of personal essays edited by Durre Shahwar and Nasia Sarwar-Skuse and due to be published by 404 Ink in early 2024. The book carves out a space for women of colour writing in the *genre* of nature writing where they are underrepresented and celebrates nature through intersecting topics such as religion, queerness, colonialism, belonging, grief, illness, creativity, climate crisis, race, and more. It features a strong lineup of Welsh writers along with writers from all over the UK.

Golwg

Gweledigaeth cwmni Golwg ydy cynnal prosiect ‘Ein Stori Ni’ yn ystod 2023/24. Bydd ‘Ein Stori Ni’ yn rhan ganolog o Golwg ar Grwydr, sef gwibdaith a fydd yn teithio cymunedau Cymru i ddarganfod cynulleidfaoedd newydd i’n cyhoeddiadau. Cyfres o weithgarwch uchelgeisiol yw ‘Ein Stori Ni’ fydd yn defnyddio creadigrwydd, newyddiaduraeth a’r cyfryngau i roi llais i gynulleidfaoedd sy’n cael eu tangynrychioli. O lwyddo, bydd y prosiect yn dod o hyd i leisiau a wynebau newydd i gael eu clywed ar gyfryngau Cymraeg.

Golwg’s vision is to carry out the 'Ein Stori Ni' project during 2023/24. ‘Ein Stori Ni’ will be a central part of Golwg ar Grwydr, an excursion that will travel the communities of Wales to discover new audiences for our publications. ‘Ein Stori Ni’ is a series of ambitious activities that will use creativity, journalism and the media to give a voice to underrepresented audiences. If successful, the project will find new voices and faces to be heard on Welsh media.

Y Lolfa (Melanie Owen)

Bydd Y Lolfa yn cyhoeddi hunangofiant creadigol gan Melanie Owen. Bydd y gyfrol bwysig, flaengar, boblogaidd hon yn gwthio ffiniau ac yn mynd â llenyddiaeth Gymraeg i diriogaethau newydd. Bydd yn llenwi bylchau yn sgil yr ymdriniaeth o themâu cyfoes nad oes digon o drafod arnynt fel cydsyniad, delwedd corff, gwrthrychioli merched, iechyd meddwl, rhyw, rhywiaeth, hiliaeth, gwyngalchu, distawrwydd pobl wyn a microymosodedd. Bydd y llyfr wedi ei strwythuro ar ffurf casgliad o wersi mae Melanie wedi eu dysgu drwy ei bywyd hyd yn hyn.

Y Lolfa will publish a creative autobiography by Melanie Owen. This progressive, important and popular volume will push boundaries and take Welsh literature to new territory. It will fill gaps that exist around the treatment and discussion of contemporary themes that don’t get discussed enough, such as consent, body image, objectification of women, mental health, gender, sexism, racism, whitewashing, white silence, and microaggressions. The book will take the form of a collection of lessons that Melanie has learnt throughout her life.

Gwasg Carreg Gwalch

Mae Gwasg Carreg Gwalch yn bwriadu cynnal Prosiect Ymgysylltu dros gyfnod o rai misoedd er mwyn hyrwyddo eu Rhaglen Gyhoeddi i gynulleidfa ehangach a mwy amrywiol. Bwriad y Prosiect Ymgysylltu yw ymestyn at ddarllenwyr newydd drwy fywiogi gweithdrefnau cyfathrebu a marchnata’r wasg, moderneiddio ein delwedd gyhoeddus, a sicrhau cyrhaeddiad eang i gylchgrawn hanes Cymru newydd y wasg. Er mwyn gwneud hyn, bydd unigolyn yn cael ei gyflogi i roi Strategaeth Gyfathrebu newydd sbon y wasg ar waith o ddydd i ddydd. Bydd grŵp marchnata’n cael ei sefydlu a fydd yn bwrw golwg ar raglen gyhoeddi’r wasg rhwng gwanwyn a gaeaf 2023.

Gwasg Carreg Gwalch intends to carry out an Engagement Project over a period of several months to promote its Publishing Programme to a wider and more diverse audience. The intention of the Engagement Project is to reach new readers by energizing the press's communication and marketing procedures, modernizing their public image, and ensuring a wide reach for the press's new Welsh history magazine. To do this, an individual will be employed to implement the press's brand new Communication Strategy on a day-to-day basis.

A marketing group will be established which will look at the press publishing programme between spring and winter 2023.

Gwasg y Bwthyn

Bydd Malachy Owain Edwards, awdur y gyfrol *Y Delyn Aur*, yn teithio i Barbados i ymchwilio i hanes ei deulu ar ochr ei dad-cu, tad ei fam, Kenrick, a ddaeth draw i Brydain yn y chwedegau fel un o genhedlaeth Windrush ac yn llunio cyfrol am y profiad.

Bydd Angela Roberts yn gweithio gyda chymuned ward Peblig yng Nghaernarfon i lunio cyfrol o storïau, atgofion, darluniau, ryseitiau a phrofiadau'r gymuned yno, gan gasglu deunydd trigolion rhwng tair a 103 oed! Bydd hwn yn brosiect cymunedol cadarnhaol a hwyliog wedi ei leoli yng Nghanolfan Noddfa yn nhref Caernarfon.

Malachy Owain Edwards, author of *Y Delyn Aur*, will travel to Barbados to research his family history on his grandfather's side, his mother's father Kenrick, who came over to Britain in the sixties as one of the Windrush generation, and compile a book for the experience.

Angela Roberts will be working with the Peblig ward community in Caernarfon to compile a volume of stories, memories, pictures, recipes and experiences of the community there, collecting material from residents between the ages of three and 103! This will be a positive and fun community project located at the Noddfa Community Centre in Caernarfon town.

IWA

Mae'r prosiect hwn yn cynnwys dwy swydd dan hyfforddiant i wella sgiliau golygyddion a newyddiadurwyr sydd ar ddechrau eu gyrfa trwy gael profiad ymarferol gyda'n cylchgrawn mewnol *the welsh agenda*. Mae'r IWA yn bwriadu i'r cyfleoedd hyn roi llwyfan i bobl o gefndiroedd a hunaniaeth ymylol trwy hyfforddiant dwys i ddau olygydd, a thrwy greu cyfleoedd cyflogedig i awduron, a fydd yn cael eu comisiynu a'u cefnogi gan y golygyddion mewnol, gydag arweiniad gan y tîm golygyddol.

This project consists of two paid internships to train and upskill editors and journalists at the beginning of their careers through gaining on-hand experience with our in-house magazine *the welsh agenda*. The IWA intends for these placements to lift up and platform people from marginalised backgrounds and identities through intensive training for two editors and by generating paid opportunities for writers, who will be commissioned and supported by the intern editors, with guidance from the editorial team.

Just Another Poet – Taz Rahman

Just Another Poet yw sianel farddoniaeth YouTube gyntaf Cymru a sefydlwyd gan Taz Rahman ym mis Mai 2019 i ddathlu'r diwylliant barddoniaeth Cymraeg a hyrwyddo gweithiau sêr sefydledig a newydd mewn barddoniaeth, yn ogystal â'r cyrff sy'n cynnal barddoniaeth fel cyhoeddwyr, siopau llyfrau, llyfrgelloedd a hwyluswyr. Mae cynwysoldeb wrth galon pob rhaglen a'r nod cyffredinol yw ehangu mynediad i farddoniaeth. Derbyniodd y sianel gomisiynau llenyddol gan Lenyddiaeth Cymru yn ogystal â derbyn Grant Cynulleidfaoedd Newydd 2022 a 2023 gan Gyngor Llyfrau Cymru.

Just Another Poet is Wales' first YouTube poetry channel founded by Taz Rahman in May 2019 to celebrate the Welsh poetry culture and promote the works of established and rising stars in poetry, as well as the bodies that sustain poetry such as publishers, bookshops,

libraries and facilitators. Inclusivity is at the heart of all programming and the overall aim is to widen access to poetry. The channel received literary commissions from Literature Wales as well as being a recipient of the New Audiences Grant 2022 and 2023 by the Books Council of Wales.

Klust

Gwefan gerddoriaeth annibynnol yw Klust sy'n tynnu sylw at gerddorion newydd o Gymru. Defnyddir y Grant Cynulleidfaoedd Newydd er mwyn datblygu ail (a thrydydd) cylchgrawn print Klust sef casgliad lliwgar o adolygiadau cynhwysfawr, dwyieithog, wedi ei weu at ei gilydd gan awduron o bob cwr o Gymru. Bydd y prosiect yn comisiynu gwaith gwreiddiol gan 20 awdur newydd o Gymru. Bydd deg darn Cymraeg a deg darn Saesneg ynghlwm, gyda phob darn yn cefnogi, hyrwyddo a dathlu'r sîn gerddorol amrywiol yng Nghymru heddiw. Mae pob darn hefyd gyda dyluniad unigryw wedi ei greu gan y dylunydd arbennig, Sioned Medi.

Klust is an independent music website that highlights new musicians from Wales. The New Audiences Grant will be used to develop the second (and third) Klust print magazine which is a colourful collection of comprehensive, bilingual reviews, woven together by writers from all over Wales. The project will commission original work from 20 new writers from Wales. There will be ten Welsh pieces and ten English pieces attached, with each piece supporting, promoting and celebrating the diverse musical scene in Wales today. Each piece also comes with a unique design created by the distinctive designer, Sioned Medi.

Lez Read

Mae Lez Read yn glwb llyfrau yng Nghaerdydd ar gyfer pobl lesbiaidd a chyfagos i lesbiaid. Rydyn ni'n cynnal digwyddiad misol yn The Queer Emporium lle'r ydyn ni'n cyflwyno hanes crochan (amharchus) awdur dethol i'r rhai sy'n mynychu ac yn darllen rhywfaint o'u gwaith. Mae gennym bolisi dim-darllen-cyn-yn-angenrheidiol ac rydym yn croesawu darllenwyr o bob lefel a phrofiad. Mae tocynnau ar gyfer ein digwyddiadau yn gwerthu allan yn hynod o gyflym, felly rydym yn gobeithio ehangu ein cyrhaeddiad trwy arbrofi gyda'n cynnig.

Lez Read is a Cardiff-based book club for lesbian and lesbian-adjacent people. We run a monthly event at The Queer Emporium where we present attendees with a potted (irreverent) history of a selected author and read some of their work. We have a no-pre-reading-necessary policy and welcome readers of all levels and experiences. Tickets for our events sell out extremely quickly so we are hoping to expand our reach by experimenting with our offer.

Lucent Dreaming

Bydd Lucent Dreaming yn parhau i ariannu eu cylchgrawn mewn print. Byddant yn buddsoddi mewn offer sain i dreialu fersiwn sain o'r cylchgrawn, ochr yn ochr â fersiwn digidol gwell. Yn ogystal, byddant yn parhau i gynnal digwyddiadau wyneb yn wyneb ac ar-lein i hyrwyddo talent leol a rhyngwladol.

Lucent Dreaming will fund the continuation of their magazine in print. They will invest in audio equipment to trial an audio version of the magazine, alongside an improved digital version. Additionally, they will continue to run in-person and online events to promote local and international talent.

Llyfr Wales [ɬɪvr weɪɬz] Tom Goddard

Mae *ɬɪvr weɪɬz* yn gyfnodolyn amlieithog blynyddol, wedi ei argraffu ar-alw, ac mae'n cynnwys cyfraniadau gan bobl greadigol ledled Cymru. Mae'n archwilio diwylliant cyfoes Cymru, yn codi ymwybyddiaeth o faterion lleol, ac yn meithrin deialog trawsddiwylliannol. Nod y cyfnodolyn yw bod yn ganolbwynt ar gyfer deialogau agored ar bryderon a gwahaniaethau cyffredin, gan ymgorffori gwreiddiau ieithyddol ei enw: 'llyfr' a 'Wala' (rhyfedd neu arall). Mae'r prosiect hwn yn cynhyrchu un rhifyn y flwyddyn yn unig, gan bwysleisio arafwch, cynaliadwyedd a hygyrchedd. Mae'n parhau i fod yn ddeinamig trwy ddolenni adborth adeiladol parhaus gyda chyfranwyr, darllenwyr a golygyddion trwy fersiynau digidol a sain wedi'u hailweithio.

ɬɪvr weɪɬz is an annual multilingual journal, printed on-demand, featuring contributions from creatives across Wales. It explores contemporary Welsh culture, raises awareness of local issues, and fosters cross-cultural dialogue. The journal aims to be a hub for open dialogues on shared concerns and differences, embodying its name's linguistic origins: 'llyfr' (book) and 'Walas' (strange or other). This project produces just one issue per year, emphasising slowness, sustainability, and accessibility. It remains dynamic through ongoing constructive feedback loops with contributors, readers, and editors via digital and audio reworked versions.

Material Queer, Damian Kerlin

Mae *Material Queer* yn gyhoeddiad ar-lein LHDTC+ newydd sy'n dathlu diwylliant cwiar yn ei holl ffurfiau. Wedi'i ysbrydoli gan ddeunydd poblogaidd Madonna, Material Girl – bydd casgliad *Material Queer* o nodweddion, cyfweliadau, adolygiadau, ac ecsgliwsif yr un mor ddeniadol, yn wrthryfelgar, yn oesol ac yn eiconig. Bydd cyllid yn datblygu brand newydd yn ogystal â chaniatáu i'r golygydd, Damian Kerlin, gomisiynu a gweithio gydag awduron LGBTQ+ o bob rhan o Gymru (a thu hwnt!) sydd wedi'u hymyleiddio yn y cyfryngau prif ffrwd, gan roi'r cyfle iddynt ddatblygu eu portffolio a'u profiad. Bydd Substack ategol yn cael ei sefydlu ochr yn ochr â'r cyhoeddiad a fydd â wal dalu, fel bod modd i'r rhai sy'n gallu fedru tanysgrifio a chefnogi cynaliadwyedd ac uchelgais hirdymor *Material Queer*.

Material Queer is a new LGBTQ+ online publication celebrating queer culture in all its forms. Inspired by Madonna's hit Material Girl – *Material Queer*'s collection of features, interviews, reviews, and exclusives will be just as attention-seeking, rebellious, timeless and iconic. Funding will develop a knock-out brand as well as allow editor, Damian Kerlin, to commission and work with LGBTQ+ writers from across Wales (and beyond!) who are marginalised in mainstream media, providing them the opportunity to develop their portfolio and experience. A complimenting Substack will be set up alongside the publication which will have a paywall, so those who can, can subscribe and support the long term sustainability and ambition of Material Queer.

MODRON

Mae *Modron* yn gylchgrawn llenyddol Cymraeg ar-lein sy'n rhoi llwyfan ar gyfer ysgrifennu ar yr argyfwng ecolegol. Mae'n cael ei gyhoeddi ddwywaith y flwyddyn gyda rhifynnau arbennig achlysurol mewn ymateb i ddigwyddiadau cyfoes pwysig, gyda'r nod o ddyfnhau ein hymgysylltiad diwylliannol â materion sy'n datblygu, a'n dehongliad ohonynt. Mae *Modron* wedi ymrwymo i gynwysoldeb, ac yn pwysleisio eu bod nhw'n agored i gyfraniadau gan awduron o'r mwyafrif byd-eang, yn ogystal â chyfraniadau gan bobl o gymunedau anabl neu niwroamrywiol. Cynhyrchir *Modron* gan dîm bychan, rhan-amser, sy'n cynnwys golygydd

Cymraeg, a golygyddion cynorthwyol yn ne a gogledd Cymru er mwyn sicrhau bod y cylchgrawn yn cynrychioli Cymru gyfan.

Modron is an online Welsh literary magazine providing a platform for writing on the ecological crisis. Published biannually, it also releases occasional special issues in response to important current events, aiming to deepen our cultural engagement with, and interpretation of, developing issues. *Modron* is committed to inclusivity, emphasising an openness to contributions from writers of the global majority, as well as those from disabled and neurodiverse communities. *Modron* is produced by a small part-time team, including a Welsh-language editor, and assistant editors in both north and south of Wales to ensure the magazine is representative of the whole country.

Nation.Cymru

Nod Nation yw adeiladu ar lwyddiant eu prosiect blaenorol a lansiwyd y llynedd, diolch i gefnogaeth y Grant Cynulleidfaoedd Newydd. Y prif amcan yw dod o hyd i, meithrin, a datblygu awduron newydd o bob rhan o Gymru, yn enwedig o gymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol. Bydd ein prosiect i fapio'r wlad – sy'n anelu at gynhyrchu straeon a chyfraniadau o BOB rhan o Gymru – yn parhau, gan ehangu drwy wahodd llythyrau o'r ardaloedd hynny ar y map nad ydynt yn cael eu cynrychioli ar hyn o bryd.

Nation aims to build on the success of their previous project, which was launched last year thanks to the support of the New Audiences Grant. The main objective is to find, nurture, and develop new writers from across Wales, particularly from underrepresented communities. Our project to map the country, which aims to generate stories and contributions from ALL parts of Wales will continue and expand this year by inviting letters from those areas on the map that are not currently represented.

New Welsh Review/Parthian: Incubate and Integrate

Prosiect dros naw mis i ddatblygu agweddau golygyddol, cyhoeddi a marchnata/cysylltiadau cyhoeddus er mwyn cyhoeddi dau lyfr gydag awduron amrywiol (a fydd yn ymgorffori cyfres o hyfforddiant i bobl ifanc amrywiol ar sut i gyhoeddi llyfrau/marchnata/cysylltiadau cyhoeddus); i wneud taliadau ymlaen llaw teg ar gyfer yr awduron amrywiol hynny; i estyn gwahoddiad er mwyn cyflawni golygyddiaeth wadd amrywiol ar gyfer un rhifyn cylchgrawn a phedwar rhifyn cylchgrawn ar-lein, ac i ofalu am ymgynghoriad i ymchwilio i archif ddigidol newydd y *New Welsh Review* a dewis a hyrwyddo 12 erthygl (rhyddiaith, ffuglen neu farddoniaeth) ar themâu allweddol sy'n seiliedig ar y nodweddion gwarchodedig (i gynnwys #BlackLivesMatter; ffeministiaeth a gwahaniaeth/cydraddoldeb rhyw; niwroddargyfeiredd ac iechyd meddwl; natur, lle a newid hinsawdd, a dosbarth a thlodi), mewn partneriaeth ag arbenigwr diwylliant digidol a llyfrgelloedd, Exact Editions, ac arbenigwr dylunio allanol.

A project over nine months to develop the editorial, marketing/PR and publication aspects of a two-book project with diverse authors (incorporating book publishing/marketing/PR mentorship training segments to diverse young people); to make fair advance payments for those diverse authors; to invite and execute a diverse guest-editorship for one magazine edition and four online magazine editions, and to run a consultancy to research into New Welsh Review's newly expanded digital archive and to choose and promote 12 articles (prose, fiction or poetry)

on key themes based on the protected characteristics (to include #BlackLivesMatter; feminism and gender difference/equality; neurodivergence and mental health; nature, place and climate change, and class and poverty), in partnership with digital culture and library specialist Exact Editions and an external designer.

Poetry Wales

Mae *Poetry Wales* yn ddiolchgar i gyllid Cynulleidfaoedd Newydd gan Gyngor Llyfrau Cymru am alluogi chwe golygydd a gyfrannodd i ymuno â ni yn 2024. Mewn partneriaeth â'r Obsidian Foundation, mae tri awdur o Gymru – Taylor Edmonds, Des Mannay a Kandace Siobhan Walker – yn rhwydweithio gyda thri o gyn-fyfyrwyr Sefydliad Obsidian – Tangie Mitchell, Fahad Al-Amoudi, a Zakia Carpenter-Hall. Bydd Taylor Edmonds a Tangie Mitchell yn gweithio ar rifyn 59.3 (Gwanwyn 2024). Bydd Des Mannay a Fahad Al-Amoudi yn gofyn am gerddi a chynigion ar gyfer rhifyn 60.1 (Haf 2024). Bydd Kandace Siobhan Walker a Zakia Carpenter-Hall yn gweithio ar rifyn 60.2 (Gaeaf 2024).

Poetry Wales is grateful to New Audiences funding from the Books Council of Wales / Cyngor Llyfrau Cymru for enabling six contributing editors to join us in 2024. In partnership with the Obsidian Foundation, three Welsh writers – Taylor Edmonds, Des Mannay and Kandace Siobhan Walker – will network with three Obsidian Foundation alumni – Tangie Mitchell, Fahad Al-Amoudi, and Zakia Carpenter-Hall. Taylor Edmonds and Tangie Mitchell will work on issue 59.3 (Spring 2024). Des Mannay and Fahad Al-Amoudi will solicit poems and pitches for issue 60.1 (Summer 2024). Kandace Siobhan Walker and Zakia Carpenter-Hall will work on issue 60.2 (Winter 2024).

Proud Little Muslims

Mae Proud Little Muslims yn gyhoeddwr llyfrau personol a sefydlwyd yn 2021 gan yr ymchwilydd o Gaerdydd, Farhia Hersi. Ysbrydolwyd y llyfr cyntaf *Inventors of the Golden Age: Just Like You!* gan yr ymadrodd 'ffenestri, drychau a drysau llithro. Gyda'r nod o ddod yn ddrws llithro sy'n mynd â'r darllenydd i fyd y dyfeiswyr a'u cyfraniadau, ac yn ddrych i gynnig adlewyrchiad o fywyd y darllenydd ei hun. Mae'r personoli yn caniatáu i'r darllenydd weld ei hun yn y stori. Gyda'r cyllid newydd, bydd llyfrau mwy dilys yn cael eu hychwanegu i greu cyfres i helpu i ddatblygu hunanddelwedd gadarnhaol, balchder a pherthyn.

Proud Little Muslims is a personalised book publisher founded in 2021 by Cardiff researcher Farhia Hersi. The debut book *Inventors of the Golden Age: Just Like You!* was inspired by the phrase 'windows, mirrors and sliding doors.' With the aim of becoming a sliding door, transporting the reader into the world of the inventors and their contributions, and a mirror, reflecting the reader's own life. The personalisation allows for the reader to see themselves in the story. With the new funding, more authentically diverse books will be added to create a series to help develop positive self-image, pride and belonging.

Rily

Bydd y grant yn galluogi Rily i greu swydd Golygydd dan Hyfforddiant rhan-amser am ddeg mis. Bydd yn gyfle gwych i rywun o gymuned heb gynrychiolaeth ddigonol weithio yn y diwydiant cyhoeddi yng Nghymru. Bydd y swydd yn cynnwys rhaglen hyfforddi, hyfforddi a mentora trylwyr gyda'r nod o greu golygydd medrus erbyn diwedd cyfnod y cytundeb. Bydd

hefyd yn darparu hyfforddiant a mentora i Nia Morais er mwyn datblygu ei sgiliau wrth addasu ffuglen i'r Gymraeg.

Bydd yr awduron arobryn, Siân Lewis a Llŷr Titus yn cyfrannu at yr hyfforddiant ynghyd â holl olygyddion uchel eu parch Rily.

The grant will enable Rily to create a part-time Trainee Editor post for ten months. It will provide an excellent gateway opportunity for someone from an under-represented community to work in Wales's publishing industry. The post will include a rigorous training, coaching and mentoring programme with the aim of creating a skilled editor by the end of the contract period. It will also provide coaching and mentoring for Nia Morais to advance her skills in adapting fiction into Welsh language.

The award-winning authors, Siân Lewis and Llŷr Titus will contribute to the training along with all of Rily's esteemed editors.

Romani Cultural and Arts Company

Mae prosiect ysgrifennu creadigol arloesol newydd y Cwmni Diwylliannol a Chelfyddydol Romani, 'Gypsy Writers', yn gwahodd ceisiadau gan awduron newydd o Sipsiwn, Roma a Theithwyr sy'n byw yng Nghymru ar hyn o bryd. Gan ymestyn y rhaglen hynod lwyddiannus Gypsy Maker, bydd pedwar awdur newydd yn cael eu comisiynu. Rhaid i'r awduron fod yn Sipsiwn, Roma a Theithwyr ac ni ddylent fod wedi cyhoeddi (ar-lein nac mewn print) llyfryn, pamffled, casgliad o gerddi, straeon byrion, na nofel o'r blaen. Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio i gomisiynu awdur blaenllaw o Sipsiwn, Roma a Theithwyr i lywio datblygiad ysgrifennu newydd drwy gynnig mentora un-i-un wedi'i deilwra, gweithdai rhyddiaith a barddoniaeth, a hyfforddiant diwydiant-benodol.

The Romani Cultural and Arts Company's trailblazing new creative writing project 'Gypsy Writers' invites applications from emerging Gypsy, Roma and Traveller writers currently living in Wales. Extending the highly successful Gypsy Maker programme, four emerging writers will be commissioned. The writers must be Gypsy, Roma and Travellers and must not have previously published (online or in print) a chapbook, pamphlet, collection of poems, short stories, or a novel. Funds will be used to commission a leading Gypsy, Roma and Traveller writer to steer the development of new writing by offering tailored one-to-one mentoring, prose and poetry workshops, and industry-specific training.

Women Publishing Wales

Rhwydwaith deinamig yw Women Publishing Wales (WPW/MCC) sy'n ceisio cysylltu a grymuso menywod yn y maes cyhoeddi yng Nghymru. Trwy greu gofod cynhwysol lle gall menywod ffynnu a symud ymlaen yn eu teithiau proffesiynol, bydd WPW yn ehangu doniau merched uchelgeisiol ac yn datgloi eu potensial llawn i wneud cyfraniadau sylweddol i'r diwydiant.

Women Publishing Wales/ Menywod Cyhoeddi Cymru (WPW/MCC) is a dynamic network that aims to connect and empower women in publishing within Wales. By creating an inclusive space where women can thrive and advance in their professional journeys, WPW will amplify

the talents of aspiring women and unlock their full potential to make significant contributions to the industry.

Xcellence

Mae *Xcellence Magazine* yn gyhoeddiad chwarterol rhad ac am ddim sy'n ymroddedig i adrodd newyddion a chyfraniadau cymunedau lleiafrifoedd ethnig ledled Cymru, a lansiwyd ym mis Awst 2022. Bydd cyllid Cynulleidfaoedd Newydd yn caniatáu inni archwilio'r cynnwys ar gyfer y pedwar rhifyn nesaf a dyfeisio strategaethau i estyn allan i gymunedau lleiafrifoedd ethnig, yn enwedig y rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig ledled Cymru. Rydym wedi ymrwymo i wella ein presenoldeb digidol a chreu pecyn tanysgrifio i ehangu ein darllenwyr. Ein dyhead yw i'r cylchgrawn gynnwys mwy o erthyglau dwyieithog, gan feithrin cynwysoldeb a hygyrchedd i gynulleidfa ehangach.

Xcellence Magazine is a free quarterly publication dedicated to reporting the news and contributions of ethnic minority communities across Wales, launched in August 2022. The New Audiences funding will allow us to explore the content for the next four issues and devise strategies to reach out to ethnic minority communities, especially those residing in rural areas across Wales. We are committed to enhancing our digital presence and crafting a subscription package to expand our readership. Our aspiration is for the magazine to feature more bilingual articles, fostering inclusivity and accessibility for a broader audience.

Y Cymro

Bydd *Y Cymro* yn targedu ardaloedd mwy difreintiedig Cymru unwaith eto, er mwyn darganfod, mentora a meithrin cyfranwyr ifanc newydd o bob cefndir yng Nghymru – hynny yn ogystal â chario mlaen gyda'r berthynas maent wedi'i sefydlu eisoes gydag ysgolion a disgyblion Cymru, yn ogystal â sgwennwyr newydd eraill. Eu bwriad yw dod o hyd i rhwng 2 a 4 disgybl o bob ysgol – i'w mentora ac i ddatblygu eu gwaith i greu cronfa eang o gyfranwyr amrywiol newydd, brwd sydd am gyhoeddi eu gwaith gyda help ac ar blatfform *Y Cymro*.

Y Cymro will once again target the more disadvantaged areas of Wales, to find and mentor and nurture new young contributors from all the various backgrounds in Wales - that as well as carrying on with the relationship they have established already with Welsh schools and pupils, as well as other new writers too. The intention is to find between 2 and 4 pupils from each school – to mentor them and develop their work to create a wide pool of new, enthusiastic contributors who want to publish their work with the help and on the *Y Cymro* platform.